# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

# Adroddiad (SLC(3)-11-08)

**Dyddiad: 06 Mai 2008**
**Amser: 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 06 Mai 2008. Roedd yr Aelodau canlynol o'r pwyllgor yn bresennol: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, Andrew RT Davies AC, Alun Davies AC, Irene James AC.

Hefyd yn bresennol roedd Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, a'r swyddogion a oedd yn cynrychioli Llywodraeth Cynulliad Cymru: Keith Parsons - Tîm Mesur ynghylch Teithio gan Ddysgwyr (Cymru); Iwan Roberts - Uwch Gyfreithiwr Tîm Addysg (Ysgolion); Mike Clancy - Pennaeth y Tîm Mesur Teithio gan Ddysgwyr, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ni roddodd y pwyllgor ystyriaeth i unrhyw offerynnau nac offerynnau drafft.

### Materion eraill

Craffodd y pwyllgor ar "y Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)" a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 15 Ebrill 2008. Rhoddodd Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth dystiolaeth i'r pwyllgor am ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Mesur, ac eglurodd y rhesymeg y tu ôl i ddewis y weithdrefn sy'n berthnasol i'r darpariaethau hyn.

Cytunodd y pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(ix) i drafod eitem 3 ar yr agenda ar ehangu gwaith craffu'r Pwyllgor.

Bydd trawsgrifiad llawn o'r cyfarfod ar gael ar wefan y pwyllgor yn fuan.

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
06 Mai 2008